

AGXIO

Mae Agxio yn gwmni Deallusrwydd Artiffisial (DA) a gwyddor data sy'n arbenigo o fewn y sectorau gwyddorau bywyd a thechnoleg amaethyddol.



ArloesiAber
AberInnovation




CYSYLLTWCH Â NI: INNOVATE@ABER.AC.UK
ABERINNOVATION.COM
[@ABERINNOVATION](https://twitter.com/ABERINNOVATION)

Mae gan DA lawer o gymwysiadau mewn amaethyddiaeth, o ddadansoddi data cnydau i wella cynnyrch llaeth. Mae'r gallu i gynorthwyo gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ffactorau'r farchnad, ochr yn ochr â lleihau risgiau a chostau cynhyrchu ychwanegol, wedi gweld systemau amaethyddol DA yn dod yn farchnad gynyddol yn ystod y degawd diwethaf. Mae Agxio ar flaen y gad o ran datblygu penderfyniadau cyfrifiadurol ym myd amaeth, gan obeithio gwneud 'data mawr' yn offeryn arall i ffermwyr wneud penderfyniadau gwell yn y diwydiant.

AMCANION

Mae Agxio yn darparu atebion meddalwedd gan ddefnyddio DA a dysgu peirianyddol; yn bennaf yn casglu data gan sefydliadau a'i ddadansoddi i helpu i ddatrys heriau'r diwydiant trwy fformatau adrodd, graffio a dadansoddi delweddau. Mae hyn yn cynnig atebion go iawn sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gellir eu cymhwyso i heriau ar ffermydd neu yn y maes, gan helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau gwybodus.

"Mae Prifysgol Aberystwyth a chwmnïau o fewn ecosystem ArloesiAber wedi helpu'n fawr gyda gwybodaeth dechnegol. Mae bod yn rhan o'r gymuned wedi ein helpu i sefydlu cysylltiadau gwerthfawr."



MEWNWELEDIAD

Mae defnyddio dulliau llai llafur-ddwys mewn rhaglennu fel 'pentwr cod isel' wedi bod o fudd mawr i gynhyrchiant Agxio; mae hyn yn galluogi Agxio i gynhyrchu llwyfannau data ar gyfer sefydliadau mewn wythnosau a misoedd yn hytrach na blynnyddoedd. Mae'r ffordd y mae Agxio'n gweithio'n golygu bod eu holl gynhyrchion yn hynod addasadwy ac yn hyblyg i anghenion y defnyddiwr terfynol. Mae hefyd yn caniatáu i un cynnyrch gael ei gymhwyso'n gyflym i sawl senario.

HERIAU

- Datblygu llwyfannau DA sy'n gwerthuso data gyda phatrymau na all modelwyr dynol eu hystyried
- Dadansoddiad o'r farchnad i benderfynu ar y galw mewn cymwysiadau diwydiant
- Ymchwil i feysydd newydd o gymhwysiad a datblygu ymarferol
- Datblygu platfformau pellach y gellir eu haddasu a'u hadeiladu ar gyfer anghenion defnyddwyr terfynol

DATRYSIADAU

- Defnyddio dadansoddeg synhwyrdd a dysgu peirianyddol cymhwysol i fonitro ffactorau allweddol yn ddeallus sy'n dylanwadu ar dwf planhigion.
- Datblygu technoleg dronau blaengar a dysgu peirianyddol integredig i gynorthwyo penderfyniadau cynhyrchwyr o ran amaethyddiaeth fanwl.
- Y llwyfan DA yn gweithredu y tu hwnt i berfformiad ar raddfa ddynol, gan werthuso data hanfodol i gynhyrchu modelau rhagfynegol sy'n datrys problemau byd go iawn yn gyflym ac yn effeithlon.

GEIRDA



"Mae Agxio'n teimlo ei fod wedi derbyn croeso mawr ac wedi cael ei gynnwys yng nghymuned ArloesiAber, ac mae wedi helpu i hybu ein cysylltiadau â'r diwydiant. Mae hyd yn oed wedi caniatáu i ni ehangu ein galluoedd ymchwil presennol.

Mae cydweithio ag academyddion Prifysgol Aberystwyth wedi ein galluogi i ddatblygu ein llwyfan ymhellach a gwireddu cysyniadau newydd o ran cymhwyso.

Rydym bellach yn ehangu ein hymchwil yn y gofodau labordy yn ArloesiAber - ein ffocws nesaf yw meicro-fïom a dilyniannu dadansoddol".

- Chloe Hazell,
Biowyddonydd

AGXIO.COM

@AGXIOAI

LINKEDIN.COM/COMPANY/AGXIOAI



Biotechnology and
Biological Sciences
Research Council



PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY